| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 31 Ionawr 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Elen Heaton |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Ann Lloyd |
| **Awdur yr adroddiad** | Katie Newe |
| **Teitl** | Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Gwasanaeth Cymorth Cartref Sir Ddinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Arolygiad AGC a gynhaliwyd ar Wasanaeth Cymorth Cartref Sir Ddinbych ac a gwblhawyd ar 17 Awst 2023 (Atodiad 1).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybodaeth am Arolygiad diweddar AGC a gynhaliwyd ar Wasanaeth Cymorth Cartref Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, wedi deall ac wedi ystyried cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Gwasanaeth Cymorth Cartref Sir Ddinbych yn cynnwys Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gweithwyr Ail-alluogi, Gweithwyr Achosion Cymhleth a Gweithwyr Gofal a Chefnogi sy'n gweithio yn y gymuned ac ar draws tri

Chyfleuster Tai Gofal Ychwanegol yn Sir Ddinbych. Cyflogir 57 o ofalwyr yn y gwasanaethau.

4.2. Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers iddo ailgofrestru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r tro cyntaf erioed i Dai Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych gael ei arolygu.

4.3. Cynhaliwyd yr arolygiad dros ddau ddiwrnod ym mis Awst 2023. Roedd yr arolygiad yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith, cyfweliadau â staff a dinasyddion ac ymweliad safle â Thai Gofal Ychwanegol Gorwel Newydd yn y Rhyl.

4.4. Ni nodwyd unrhyw feysydd oedd angen gwella. Rhoddodd AGC adborth ar lafar i nodi pe bai sgôr dawel yn cael ei ddefnyddio, byddai pob maes yn cael ei werthuso fel da.

4.5. Crynodeb o ddarganfyddiadau adroddiad AGC;

*Mae pobl yn hapus gyda'r gwasanaeth maent yn ei gael ac yn canmol safon y gofal. Ymdrechir i gynnwys pobl mewn penderfyniadau am eu gofal a chefnogaeth. Mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu ac mae eu gofal yn cael ei deilwra i gyd-fynd â'u dymuniadau a'r hyn sydd orau ganddynt. Mae'r gofal a ddarperir yn hyblyg i gyd-fynd â newidiadau mewn anghenion pobl. Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion gofal presennol pobl a sut maent yn dymuno cael eu cefnogi ac mae'r dogfennau hyn yn cael eu diweddaru pan fo angen. Gofynnir am farn pobl fel rhan o adolygiadau ffurfiol o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda a'i reoli'n dda yn gyson. Mae trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd ac i ystyried sut y gellir ei wella neu ei ddatblygu ymhellach. Mae staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel, yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr ac yn cael yr hyfforddiant perthnasol. Mae staff yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu gwaith.*

4.6. Roedd meysydd eraill a amlygwyd yn yr adroddiad yn cynnwys;

**Dinasyddion;** *Dywedodd pobl wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a chefnogaeth maent yn ei gael a bod eu hanghenion gofal yn cael eu bodloni. Dywedodd gweithiwr proffesiynol gofal cymdeithasol wrthym fod staff yn gweithio mewn partneriaeth gyda nhw a gweithwyr proffesiynol iechyd. Mae hyn yn galluogi pobl i oresgyn rhwystrau a chyflawni canlyniadau positif.*

**Staff;** *Mae staff yn mwynhau eu gwaith ac yn cael hyfforddiant priodol i'w rolau. Maen nhw hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr ac yn gallu codi unrhyw bryderon sydd ganddynt.*

**Arweinyddiaeth;** *Mae goruchwyliaeth dda gan reolwyr o'r gwasanaeth a ddarperir, sy'n golygu bod pobl yn cael gwasanaeth o ansawdd da. Cwblheir gwiriadau monitro rheolaidd gan reolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir fel y dylai fod. Gall pobl fod yn sicr bod trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn gyson …. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn rhagweithiol wrth ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o weithio gyda phobl ac maent wedi ymrwymo i esblygu'r gwasanaeth fel y gall fodloni anghenion poblogaeth ehangach o bobl.*

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. **Sir Ddinbych iachach a hapusach, sy'n gofalu,** mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chefnogaeth i ddinasyddion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned ac mewn Tai Gofal Ychwanegol. Dangosodd ciplun ar gyfer mis Gorffennaf 2023 bod y gwasanaeth wedi darparu 764 awr o ofal a chefnogaeth i 39 o ddinasyddion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned.

5.2. **Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well,** mae'r gwasanaeth yn cyflwyno mynediad at e-gerbydau i bob gweithiwr symudol.

5.3. **Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;** darganfu'r arolygiad bod y gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn dynodi ac yn bodloni anghenion diwylliannol a Chymraeg pobl sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth.

5.4. **Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad,** mae adroddiad yr arolygiad yn cydnabod bod y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda ac yn cael ei reoli'n dda yn gyson.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol

## 10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol